# Y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu

## Cymru 2013-2017

**Gwybodaeth am y Farchnad Lafur**







Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i CITB-SgiliauAdeiladu sicrhau bod y diwydiant mwyaf yn y DU yn meddu ar y gweithlu medrus sy'n angenrheidiol. Gan weithio gyda'r Llywodraeth, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y diwydiant yn cynnwys digon o newydd-ddyfodiaid cymwys a bod y gweithlu presennol yn hollol fedrus a chymwys, yn ogystal â gwella perfformiad y diwydiant a'r cwmnïau ynddo.

Mae'r deunyddiau hyn, ynghyd â'r holl hawliau eiddo deallusol ynddynt, yn eiddo i Fwrdd Hyfforddi y Diwydiant Adeiladu (SgiliauAdeiladu). Hawlfraint 2005 ("SgiliauAdeiladu") ac ni ddylid eu copïo, eu hatgynhyrchu na'u trosglwyddo i drydydd parti heb sicrhau caniatâd ysgrifenedig SgiliauAdeiladu ymlaen llaw. Lluniwyd y deunyddiau hyn gan ddefnyddio data a gwybodaeth a ddarparwyd i SgiliauAdeiladu a/neu EXPERIAN Limited ("Experian") gan drydydd partïon, ac nid oes modd i EXPERIAN na SgiliauAdeiladu ddilysu eu cywirdeb. Felly, nid yw EXPERIAN na SgiliauAdeiladu yn cynnig unrhyw warant ynghylch cywirdeb neu addasrwydd unrhyw ddiben penodol y deunyddiau hyn. Yn ogystal, nid yw'r deunyddiau hyn yn cynnig cyngor, ac ni ddylid eu defnyddio fel yr unig sail dros wneud unrhyw benderfyniad busnes, ac o'r herwydd, ni fydd EXPERIAN na SgiliauAdeiladu yn atebol dros unrhyw benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar sail hyn. Rydych yn cydnabod nad yw deunyddiau y maent yn defnyddio data empirig a/neu ddata ystadegol a/neu fodelu data a/neu dechnegau rhagamcanu er mwyn darparu data mynegol a/neu ragfynegol, yn gallu cynnig gwarant o unrhyw ganlyniad penodol.



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb a chanfyddiadau allweddol | 4 |
| 2 | Y rhagolygon ar gyfer adeiladu yng Nghymru | 6 |
| 3 | Rhagamcanion ynghylch swyddi adeiladu yng Nghymru | 12 |
| 4 | Cymariaethau ledled y DU | 14 |

## Tablau a Siartiau

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu 2013–2017 | 4 |
| 2 | Cymariaethau rhanbarthol 2013–2017 | 5 |
| 3 | Allbwn adeiladu 1995–2011 | 6 |
| 4 | Strwythur y diwydiant adeiladu 2011 | 6 |
| 5 | Strwythur economaidd | 7 |
| 6 | Dangosyddion economaidd | 7 |
| 7 | Twf mewn archebion adeiladu newydd 1995-2011 | 8 |
| 8 | Archebion gwaith adeiladu newydd | 8 |
| 9 | Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu 2013–2014 | 9 |
| 10 | Allbwn adeiladu 2013–2014 | 10 |
| 11 | Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu 2013-2017 | 11 |
| 12 | Allbwn adeiladu 2013–2017 | 11 |
| 13 | Cyfanswm y swyddi yn ôl galwedigaeth | 12 |
| 14 | Gofyniad recriwtio blynyddol yn ôl galwedigaeth | 13 |
| 15 | Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn yn ôl rhanbarth | 15 |
| 16 | Gofyniad recriwtio blynyddol yn ôl rhanbarth | 15 |


**CSN Explained** 16



# 1. Crynodeb – Cymru

Disgwylir i allbwn y diwydiant adeiladu yng Nghymru gynyddu 2.7% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd nesaf hyd at 2017. Mae hyn yn seiliedig yn bennaf ar brif waith adeiladu sy'n dechrau yn yr Wylfa ar Ynys Môn tua diwedd 2016. Disgwylir i allbwn gwaith newydd gynyddu 3.6% y flwyddyn ar gyfartaledd, o gymharu â chynnydd gwannach o 0.3% ar gyfer y sector atgyweirio a'r sector cynnal a chadw (R&M). Disgwylir i nifer y swyddi adeiladu yng Nghymru leihau 1.5% y flwyddyn ar gyfartaledd dros yr un cyfnod, am fod twf cryf mewn allbwn yn dod tua diwedd y cyfnod rhagamcanu ac mae mewn sector llafurddwys isel. Y gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) yw 2,950, sy'n cyfateb i 3.1% o'r gyflogaeth sylfaenol ar gyfer 2013 yng Nghymru.

**Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu 2013-2017 – Cymru**




Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2



Disgwylir i allbwn y diwydiant adeiladu yng Nghymru gynyddu 2.7% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd nesaf hyd at 2017

## Canfyddiadau allweddol

Dechreuodd allbwn adeiladu dyfu unwaith eto yng Nghymru yn 2010 a gwelodd flwyddyn arall o dwf cyn dechrau crebachu eto yn 2012. Amcangyfrifir ei fod wedi gostwng 13%. Disgwylir i allbwn ostwng ym mhob sector yn 2012, ac eithrio'r sector diwydiannol, er bod y sector hwnnw yn adfer o sail arbennig o isel. Mae'r rhagolygon byrdymor yn wan a disgwylir gostyngiad pellach o 5% yn 2013 cyn i allbwn ddechrau tyfu'n araf unwaith eto yn 2014.

Fel sy'n digwydd bron ym mhob rhan o'r DU, mae'r gwendid yn yr economi ehangach yn parhau i effeithio ar y sectorau preifat. Oherwydd y diffyg hyder ymhlith busnesau a defnyddwyr nid oes fawr ddim cymhelliant i fuddsoddi mewn cyfleusterau manwerthu a hamdden, yn enwedig yn sgil y twf gwan a welwyd yng ngwariant defnyddwyr, ac mae'n anodd gwybod o hyd pryd y dylid cyflwyno swyddfeydd newydd i'r farchnad. Mae galw gwan yn effeithio ar y sector tai preifat ac mae pryderon ynghylch rhagolygon cyflogaeth a'r wasgfa barhaus ar incwm cartrefi yn cael effaith. Disgwyliwn i'r sefyllfa economaidd wella dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a ddylai greu rhywfaint o ysgogiad i fuddsoddi mewn datblygiadau newydd. Mae toriadau mewn gwariant cyhoeddus yng Nghymru yn debygol o fod yn llai nag ar gyfer y DU yn gyffredinol a disgwylir i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer iechyd, er enghraifft, leihau hyd at 2013/14 ac wedyn gynyddu ychydig yn 2014/15.

Y prif ffactor sy'n ysgogi perfformiad cryf gan y diwydiant adeiladu yng Nghymru dros y cyfnod rhagamcanu yw'r orsaf ynni niwclear newydd arfaethedig yn yr Wylfa ar Ynys Môn. Bu cyfnod o ansicrwydd pan gafodd Horizon, sef datblygwr y prosiect, ei roi ar werth ond mae'r sefyllfa wedi'i hadfer ar ôl iddo gael ei brynu'n ddiweddar gan Hitachi. Mae angen i dechnoleg Hitachi gael asesiad cynllun cyffredinol o hyd ond disgwylir i'r gwaith ar yr orsaf ynni niwclear ddechrau yn ystod y cyfnod rhagamcanu cyfredol. Heb y prosiect hwn, mae'r gyfradd twf flynyddol gyfartalog ar gyfer y sector adeiladu yng Nghymru yn gostwng i 0.6% yn unig dros y pum mlynedd hyd at 2017.

Mae'r ffaith bod y twf cryf mewn allbwn adeiladu yn digwydd tua diwedd y cyfnod rhagamcanu ac o ystyried y bwlch rhwng twf mewn allbwn a thwf mewn swyddi, a waethygir gan y cynnydd mewn tangyflogaeth, yn golygu y disgwylir i nifer y swyddi adeiladu yng Nghymru leihau 1.5% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2013 a 2017. Rhagwelir y bydd y gweithlu adeiladu yng Nghymru yn cynnwys cyfanswm o 92,910 o unigolion yn 2017, 23% yn is na'r uchafswm nifer yn 2007. Er y disgwylir i gyflogaeth ostwng yn gyffredinol, rhagamcanir y bydd cynnydd mewn swyddi yn achos nifer o alwedigaethau dros y cyfnod a rhagwelir y bydd plastrwyr a leinwyr sych yn gweld twf cyfartalog blynyddol o 1.4% ac y bydd syrfewyr yn gweld cynnydd cyfartalog o 1% y flwyddyn. Mewn cyferbyniad, rhagwelir y bydd gweithwyr adeiladu arbenigol nec yn gweld gostyngiad blynyddol cyfartalog o 4.3%.

Mae Cymru yn tueddu i fod â gofyniad recriwtio uchel ac nid yw'n wahanol ar gyfer y cyfnod 2013-2017. Mae'r gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) ar gyfer Cymru, sef 2,950, yn cyfateb i 3.1% o'r gyflogaeth sylfaenol ar gyfer 2013, sydd gryn dipyn yn uwch na'r ffigur ar gyfer y DU, sef 1.2%.

### Cymhariaeth ranbarthol 2013-2017

| | Newid canrannol cyfartalog blynyddol mewn allbwn | Newid yng nghyfanswm nifer y swyddi | Cyfanswm ARR |
|---|---|---|---|
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 1.7% | -7,950 | 690 |
| Swydd Efrog a Humber | -0.9% | -16,110 | 1,910 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | -0.4% | -8,590 | 1,860 |
| Dwyrain Lloegr | 1.2% | 6,550 | 5,820 |
| Llundain Fwyaf | 1.9% | 10,060 | 1,180 |
| De-ddwyrain Lloegr | 1.1% | -12,780 | 4,570 |
| De-orllewin Lloegr | 1.3% | -12,400 | 2,910 |
| Cymru | 2.7% | -7,080 | 2,950 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | -1.4% | -23,210 | 830 |
| Gogledd Iwerddon | 1.7% | -5,040 | 660 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | -0.4% | -14,500 | 2,870 |
| Yr Alban | 1.1% | -10,690 | 2,800 |
| **Y DU** | **0.8%** | **-101,740** | **29,050** |

Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2



# 2. Y rhagolygon ar gyfer adeiladu yng Nghymru


## 2.1 Allbwn adeiladu yng Nghymru – trosolwg

Mae ffigurau diwygiedig gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn awgrymu bod allbwn adeiladu yng Nghymru yn debygol o fod wedi tyfu ychydig yn 2010, yn hytrach na'r dirywiad a gofnodwyd y llynedd, er yr amcangyfrifir ei fod yn dwf bach iawn, sef 1%. Amcangyfrifir bod 2011 wedi bod yn flwyddyn well, gyda'r sector adeiladu yng Nghymru yn tyfu 6%, sy'n well na chyfartaledd y DU, sef 2%.

Gwelodd y ddau sector tai newydd dwf da, sef 13% a 17% yn y drefn honno, gyda'r cyntaf yn cyrraedd ei lefel uchaf erioed ond gostwng a wnaeth lefelau gweithgarwch yng ngweddill y sectorau gwaith newydd ac roedd y sector adeiladu diwydiannol yn arbennig o wan (-21%).

Fodd bynnag, y sector atgyweirio a'r sector cynnal a chadw a oedd yn bennaf cyfrifol am dwf yn 2011, gan adennill llawer o'r tir a gollwyd yn 2010 a oedd yn flwyddyn wael.

### Allbwn adeiladu 1995-2011 – Cymru




Ffynhonnell: SYG
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 1


## 2.2 Strwythur y diwydiant

Dengys y diagram, strwythur y diwydiant adeiladu, 2011 – y DU o'i chymharu â Chymru, ddadansoddiad o'r diwydiant adeiladu yn ôl sector yng Nghymru o'i gymharu â'r sefyllfa yn y DU. I bob diben, dengys y canrannau ar gyfer pob sector pa gyfran o'r holl allbwn y mae pob sector yn cyfrif amdani.

Roedd rhai gwahaniaethau strwythurol rhwng y diwydiannau adeiladu yng Nghymru a'r DU yn 2011 – roedd y sector tai preifat yn cyfrif am gyfran o allbwn adeiladu Cymru a oedd 3% yn fwy na'r hyn a nodwyd ledled y DU yn gyffredinol ac roedd y sector seilwaith 4% yn fwy ar gyfartaledd, er bod yr olaf wedi gostwng o 5% yn 2010. Mae'r sector atgyweirio a'r sector cynnal a chadw, nad yw'n ymwneud â thai, yn dal i fod yn farchnad lai pwysig yng Nghymru nag yn y DU, gan gyfrif am gyfran 6% yn llai yng Nghymru nag yn y DU, er bod y gyfran hon wedi gostwng o 8% yn 2010.

Yr hyn sydd wedi peri syndod yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw anwadalrwydd allbwn atgyweirio a chynnal a chadw a bennwyd i Gymru gan SYG. Efallai fod hyn i'w briodoli i'r defnydd cynyddol o gytundebau fframwaith ar gyfer prosiectau adnewyddu tai cymdeithasol mawr ac felly'r ffaith y gall lefelau cynyddol o waith gael eu gwneud gan gontractwyr mawr a leolir y tu allan i Gymru. Y newid mwyaf yn 2011 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol oedd y cynnydd yng nghyfran y sector atgyweirio a'r sector cynnal a chadw, nad yw'n ymwneud â thai, o gyfanswm yr allbwn o 9% i 12%.

### Strwythur y diwydiant adeiladu 2011 – Cymru o'i chymharu â'r DU




Ffynhonnell: SYG, Experian

## 2.3 Trosolwg economaidd

Mae perfformiad disgwyliedig economi ranbarthol neu genedlaethol dros y cyfnod rhagamcanu (2013-2017) yn rhoi syniad o'r sectorau adeiladu lle mae'r galw yn debygol o fod ar ei gryfaf.

## 2.4 Strwythur economaidd

Roedd Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yng Nghymru yn gyfanswm o £43.9 biliwn ym mhrisiau 2009 yn 2011, gostyngiad o 0.5% o gymharu â 2010. Mae hyn yn cymharu'n wael â thwf GYC y DU o 1.1% yn ystod yr un cyfnod ac mae'n golygu i gyfran Cymru o gyfanswm GYC y DU ostwng o 3.6% i 3.4%.

Gostyngodd GYC gwasanaethau cyhoeddus 3.6% yn 2011 ond nid hwn oedd y sector a berfformiodd waethaf. Y sector cyllid ac yswiriant, a ostyngodd 5.3%, sy'n cael yr anrhydedd amheus hwnnw. Mewn cyferbyniad, cynyddodd GYC y sector gweithgynhyrchu gryn dipyn, yn agos i 5%.

Gostyngodd GYC gwasanaethau cyhoeddus am y drydedd flwyddyn yn olynol o fewn y sector yn 2011, ond mae'n dal i gynrychioli'r rhan fwyaf o economi Cymru, gyda chyfran o 23.8%, sydd wedi gostwng o 24.3% yn 2008. Yr ail sector mwyaf yng Nghymru yw'r sector gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill, yr oedd ei gyfran o gyfanswm GYC yn 19.3% yn 2011, er ei fod yn dal i fod yn llai pwysig i economi Cymru nag ydyw yn y DU yn gyffredinol, lle'r oedd ei gyfran o GYC yn 22.7%.

Mewn cyferbyniad, mae gweithgynhyrchu yn elfen lawer mwy pwysig o economi Cymru ac 16.6% oedd ei gyfran o GYC yn 2011, o gymharu â 10.9% ledled y DU yn gyffredinol, er bod hyn gryn dipyn yn is na'i gyfran yn 2000, sef 20.6%.

### Strwythur economaidd – Cymru (£ biliwn, prisiau 2009)

| Sectorau dethol | Gwirioneddol | Rhagamcan<br>*Newid canrannol blynyddol, termau real* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Gwasanaethau cyhoeddus | 10.5 | 0.8 | -0.4 | 0.1 | 0.3 | 0.6 | 0.9 |
| Gwasanaethau proffesiynol a gwasanaethau preifat eraill | 8.5 | 1.5 | 0.7 | 1.6 | 2.1 | 2.4 | 2.4 |
| Gweithgynhyrchu | 7.3 | -0.9 | 1.7 | 2.1 | 1.5 | 1.1 | 0.9 |
| Cyfanwerthu a manwerthu | 4.5 | -0.4 | 0.5 | 1.8 | 2.2 | 2.3 | 2.2 |
| Llety, gwasanaethau bwyd a hamdden | 2.2 | 3.5 | 2.4 | 2.9 | 2.6 | 2.1 | 2.0 |
| **Cyfanswm y Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)** | **43.9** | **-0.5** | **0.3** | **1.3** | **1.7** | **1.9** | **1.9** |

Nodyn: Y 5 sector uchaf, heb gynnwys adeiladu
Ffynhonnell: Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 3

## 2.5 Dangosyddion economaidd tuag at y dyfodol

Rhagwelir y bydd economi Cymru yn tyfu ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 1.4% dros y pum mlynedd hyd at 2017, 0.5 y cant islaw cyfartaledd y DU, sef 1.9%.

Disgwylir gweld y perfformiad cryfaf gan y sector llety, y sector gwasanaethau bwyd a'r sector hamdden, gyda thwf cyfartalog blynyddol o 2.4%, a'r sector gwybodaeth a chyfathrebu a'r sector cyllid ac yswiriant gyda thwf o 2%. Nid yw'n syndod bod twf mewn gwasanaethau cyhoeddus yn wan, ar gyfradd gyfartalog flynyddol o 0.3% yn unig.

Fodd bynnag, mae twf rhwng 2013 a 2017 yn dilyn 2012 wael ac amcangyfrifir y bydd GYC yng Nghymru yn gostwng 0.5%, sef yr un gostyngiad ag a welwyd yn 2011. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfartaledd y DU ac mae'n seiliedig i raddau helaeth ar effeithiau atgyfodiad diweddaraf yr argyfwng dyled sofran yn Ewrop ar economi'r DU.

Ar ôl gostwng yn sylweddol yn 2011, amcangyfrifir bod incwm gwario gwirioneddol cartrefi (RHDI) a gwariant defnyddwyr wedi sefydlogi yn 2012. Rhagamcanir y bydd y ddau ddangosydd yn nodi bod yr economi'n dechrau tyfu'n araf unwaith eto dros y cyfnod rhagamcanu, ond hyd yn oed erbyn 2017 bydd twf oddeutu 2% neu ychydig yn uwch, sydd gryn dipyn yn is na'r lefelau uchel a welwyd ar ddechrau'r 2000au.


Disgwylir i'r gyfradd ddiweithdra gyrraedd uchafbwynt yn 2013, sef tua 9.3%, flwyddyn yn ddiweddarach nag a ragwelwyd yn 2011. Bu twf cyflogaeth yn arbennig o gryf yn 2012 o ystyried yr economi wan, er bod llawer o'r twf hwn wedi'i weld mewn gwaith rhan-amser yn hytrach na gwaith llawn-amser, ond disgwylir i'r duedd hon gael ei hunioni rywfaint wrth i ni symud i mewn i 2013. Disgwylir i'r boblogaeth o oedran gweithio fel cyfran o gyfanswm

### Dangosyddion economaidd – Cymru (£ biliwn, prisiau 2009 – oni nodir yn wahanol)

| | Gwirioneddol | Rhagamcan<br>*Newid canrannol blynyddol, termau real* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
| Incwm gwario gwirioneddol cartrefi | 38.7 | 0.5 | 0.8 | 1.5 | 1.6 | 1.6 | 2.1 |
| Gwariant cartrefi | 37.5 | 0.0 | 0.6 | 1.6 | 2.0 | 2.1 | 2.3 |
| Poblogaeth o oedran gweithio (000oedd ac fel % o'r cyfanswm) | 1797.8 | 59.5% | 59.9% | 60.3% | 60.6% | 60.8% | 61.0% |
| Prisiau tai (£, prisiau cyfredol) | 150,120 | 0.8 | 0.6 | 0.8 | 1.5 | 1.7 | 2.0 |
| Diweithdra LFS (miliynau) | 0.13 | 3.91 | 3.89 | -7.19 | -8.21 | -5.68 | -7.78 |

Ffynhonnell: SYG, DCLG, Experian

## Twf mewn archebion adeiladu newydd 1995-2011 – Cymru a Phrydain Fawr




Ffynhonnell: SYG
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 4

y boblogaeth yng Nghymru gynyddu'n raddol dros y cyfnod rhagamcanu, yn wahanol i'r DU yn gyffredinol lle y rhagamcanir y bydd yn aros yn sefydlog ar y gorau.

Ni fu fawr o newid mewn prisiau tai yng Nghymru ar sail flynyddol yn 2011, yn ôl data gan SYG a rhagamcanir y bydd codiadau yn y dyfodol yn aros ychydig o dan 1% y flwyddyn am y tair blynedd nesaf. Hyd yn oed erbyn 2017 rhagwelir y bydd prisiau tai yng Nghymru ond yn codi 2% y flwyddyn.

### 2.6 Archebion adeiladu newydd – trosolwg

Ar ôl blwyddyn sefydlog yn 2010, gostyngodd gwerth archebion adeiladu newydd yng Nghymru yn sylweddol unwaith eto yn 2011, 32% i £1.42 biliwn mewn prisiau cyfredol, sef dim ond 41% o'u lefel uchaf yn 2006 a'r lefel isaf ers 1993. I ryw raddau mae ychydig yn annheg cymharu lefelau archebion cyfredol â'r lefel uchaf flaenorol a byddai'n decach cymharu'r hyn a elwid yn lefel normal o archebion newydd. Fodd bynnag, mae hyn yn codi'r cwestiwn, beth sy'n 'normal'? Mae'r broses o gyfrifo ffigur 'normal' yn cael ei chymhlethu gan y ffaith mai dim ond mewn prisiau cyfredol y mae archebion adeiladu newydd ar gael ar lefel ranbarthol, felly mae'n cynnwys effeithiau chwyddiant ac mae'n debygol o godi ar y cyfan yn y tymor hwy. Fodd bynnag, byddai'r ffaith syml eu bod ar eu lefel isaf ers 1993 yn awgrymu bod nifer yr archebion newydd yn 2011 gryn dipyn yn llai na'r hyn y gellid ei ddisgrifio'n normal.

Yr unig sector na welodd lai o archebion newydd yn 2011 oedd y sector adeiladu diwydiannol yr oedd ganddo broffil gwastad. Ar gyfer pob un o'r sectorau gwaith newydd eraill gwelwyd dirywiad o fwy nag 20%. Y sector tai cyhoeddus a oedd waethaf ar -45%, er bod hyn yn dilyn dwy flynedd dda iawn o dwf.

### Archebion gwaith adeiladu newydd – Cymru (£ miliwn, prisiau cyfredol)

| | Gwirioneddol 2011 | Newid canrannol blynyddol 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai cyhoeddus | 99 | 61.8 | -15.1 | 54.0 | 32.3 | -44.8 |
| Tai preifat | 322 | -9.3 | -61.4 | -8.2 | 125.6 | -40.1 |
| Seilwaith | 190 | -39.6 | 57.3 | 11.5 | -28.9 | -37.6 |
| Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 380 | -16.0 | 14.8 | -18.2 | -14.7 | -21.3 |
| Diwydiannol | 73 | 67.1 | -48.1 | 48.2 | -68.8 | -0.1 |
| Masnachol | 358 | -23.9 | -33.5 | -30.1 | 12.1 | -32.0 |
| **Cyfanswm y gwaith newydd** | **1,424** | **-14.5** | **-23.3** | **-8.0** | **1.5** | **-32.4** |

Ffynhonnell: SYG
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 4

## 2.7 Archebion adeiladu newydd – y sefyllfa gyfredol

Mae hanner cyntaf 2012 wedi bod yn llawer gwell ac mae nifer yr archebion newydd wedi cynyddu 60% o hanner blwyddyn i hanner blwyddyn ac roeddent 37% yn uwch na'r cyfnod cyfatebol yn 2011. Cafwyd y twf cryfaf yn y sector diwydiannol lle gwaeth nifer yr archebion fwy na dyblu ar sail flynyddol, er bod hyn o lefel isel iawn ac felly mae'r newidiadau yn cael eu chwyddo yn nhermau canran. Gwelodd y sector seilwaith a'r sector masnachol gynnydd sylweddol hefyd yn nifer yr archebion newydd, sef 80% a 61% yn y drefn honno, o hanner blwyddyn i hanner blwyddyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried y cynnydd hwn yng nghyd-destun y dirywiad a nodwyd yn yr adran flaenorol, hynny yw mae nifer yr archebion newydd, ar y cyfan, yn cynyddu o lefel isel iawn.

## 2.8 Allbwn adeiladu – rhagolygon byrdymor (2013–2014)

Cyhoeddir ystadegau allbwn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) mewn prisiau cyfredol ac felly maent yn cynnwys unrhyw effaith chwyddiannol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, dim ond ar gyfer dau chwarter cyntaf 2012 roedd ystadegau allbwn adeiladu SYG ar lefel ranbarthol ar gael.

Cyfanswm yr allbwn adeiladu yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf 2012 oedd £1.94 biliwn mewn prisiau cyfredol, 12% yn is na'r hanner blwyddyn blaenorol a 13% yn is na'r cyfnod cyfatebol yn 2011. Roedd allbwn yn arbennig o wan yn y sector tai cyhoeddus a'r sector tai preifat (-21% a -25% yn y drefn honno o hanner blwyddyn i hanner blwyddyn) a'r sector seilwaith (-38% ar yr un mesur). Er bod gweithgarwch wedi cynyddu yn y sector diwydiannol, y sector masnachol a'r sector atgyweirio a chynnal a chadw nad yw'n ymwneud â thai, nid oedd twf yn arbennig o gryf.

Am na ddisgwylir i ail hanner y flwyddyn fod wedi bod yn sylweddol well na'r hanner cyntaf, amcangyfrifir bod allbwn adeiladu yng Nghymru wedi lleihau tua 13% mewn termau real yn 2012. Mae'r sector gwaith newydd yn debygol o fod wedi perfformio'n waeth na'r sector atgyweirio a'r sector cynnal a chadw ac amcangyfrifir bod allbwn wedi lleihau 15% yn y cyntaf a 7% yn yr ail.


Disgwylir blwyddyn arall o grebachu ar gyfer y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn 2013 a rhagwelir y bydd yn lleihau 5%, cyn iddo ddechrau tyfu unwaith eto yn 2014, er mai dim ond twf gwan o 1% a welir. Mae'r adferiad hwn yn debygol o gael ei ysgogi gan y sectorau gwaith newydd a rhagwelir y bydd allbwn yn cynyddu 2% yn 2014 a disgwylir gostyngiad bach iawn o 1% yn lefelau gweithgarwch atgyweirio a chynnal a chadw.

Disgwylir i'r sector tai cyhoeddus berfformio waethaf yng Nghymru yn y byrdymor a rhagwelir y bydd allbwn y sector hwn yn lleihau 13.3% ar gyfartaledd yn 2013 a 2014. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu lleihad dau ddigid yn 2013 a disgwylir i allbwn sefydlogi yn 2014. Disgwylir i arian cyfalaf yng Nghymru ar gyfer tai cymdeithasol newydd leihau tua 12% rhwng 2012/13 a 2013/14, er y bydd yn sefydlogi ar ôl hynny.

Disgwylir i allbwn cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai leihau'n sylweddol hefyd yn y byrdymor, gyda lleihad blynyddol cyfartalog o 11.1% yn 2013 a 2014. Disgwylir i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer iechyd leihau yn 2013/14, i tua £217 miliwn, o £246 miliwn yn y flwyddyn flaenorol ond disgwylir iddi gynyddu ychydig i £225 miliwn yn 2014/15. Disgwylir i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer addysg leihau hefyd, i £154 miliwn erbyn 2014/15 o £178 miliwn yn 2012/13.

Mae'r gostyngiad blynyddol cyfartalog o 1.5% a ragwelir ar gyfer 2013 a 2014 yn golygu bod rhagolygon byrdymor ar gyfer y farchnad adeiladu fasnachol yng Nghymru yn wan. Mae rhai prosiectau adeiladu masnachol mawr wrthi'n cael eu cynllunio yng Nghymru ond y cwestiwn yw pryd y byddant yn cael eu rhoi ar waith? Yr un mwyaf yw'r prosiect arfaethedig gwerth £200 miliwn i ailddatblygu canol tref Tonysguboriau, sy'n cynnwys cymysgedd o safleoedd manwerthu, safleoedd hamdden a swyddfeydd. Yn y byrdymor, bydd gwendidau parhaus yn yr economi ehangach yn golygu nad oes fawr ddim cymhelliant i fuddsoddi mewn datblygiadau newydd a bydd gwariant defnyddwyr gwan yn effeithio ar gyfleusterau manwerthu a hamdden yn arbennig. Dylai gwelliant mwy parhaus mewn amgylchiadau economaidd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ynghyd â gwell rhagolygon ar gyfer incwm gwario, roi'r sail ar gyfer dechrau datblygiadau newydd.

### Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu 2013-2014 – Cymru




Ffynhonnell: Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2

**Allbwn adeiladu – Cymru (£ miliwn, prisiau 2005)**

| | Gwirioneddol 2011 | Newid canrannol blynyddol rhagamcanol 2012 | 2013 | 2014 | Cyfartaledd blynyddol 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai cyhoeddus | 187 | -20% | -25% | 0% | -13.3% |
| Tai preifat | 627 | -23% | 1% | 7% | 4.1% |
| Seilwaith | 602 | -33% | 1% | 1% | 0.8% |
| Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 518 | -13% | -18% | -4% | -11.1% |
| Diwydiannol | 106 | 22% | -1% | 3% | 0.9% |
| Masnachol | 763 | -1% | -5% | 2% | -1.5% |
| **Gwaith newydd** | **2,802** | **-15%** | **-6%** | **2%** | **-2.3%** |
| R&M sy'n ymwneud â thai | 601 | -13% | -2% | 1% | -0.9% |
| R&M nad yw'n ymwneud â thai | 469 | 0% | -5% | -2% | -3.5% |
| **Cyfanswm R&M** | **1,071** | **-7%** | **-4%** | **-1%** | **-2.1%** |
| **Cyfanswm y gwaith** | **3,873** | **-13%** | **-5%** | **1%** | **-2.2%** |

Ffynhonnell: Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodiadau 1 a 2

## 2.9 Allbwn adeiladu – rhagolygon hirdymor (2013–2017)

Dros y pum mlynedd hyd at 2017, rhagamcanir y bydd allbwn adeiladu yng Nghymru yn cynyddu 2.7% y flwyddyn ar gyfartaledd, sydd gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 0.8%. Disgwylir i'r sector gwaith newydd weld twf llawer cryfach nag allbwn atgyweirio a chynnal a chadw, gyda chynnydd cyfartalog o 3.6% a 0.3% yn y drefn honno. Mae'r perfformiad cryf hwn i'w briodoli bron yn gyfan gwbl i'r ffaith bod gwaith yn dechrau ar yr adweithydd niwclear newydd yn yr Wylfa yn 2016, sy'n esbonio perfformiad cryf yr allbwn gwaith newydd, a heb y prosiect hwn, mae cyfradd twf flynyddol gyfartalog Cymru yn gostwng i 0.6% dros y cyfnod o bum mlynedd.

Nid yw'n syndod mai'r sector seilwaith yw'r un sy'n perfformio orau dros y cyfnod rhagamcanu, gyda thwf cyfartalog o 14.3% y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu twf arbennig o gryf tua diwedd y cyfnod rhagamcanu pan ddylai'r gwaith yn yr Wylfa ar Ynys Môn fod wedi dechrau. Mae gwybodaeth gyfredol gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA) yn awgrymu y gallai gwaith galluogi ddechrau yn yr Wylfa yn 2015 a disgwylir i'r prif waith adeiladu ddechrau yn 2016. Roedd gwybodaeth gychwynnol ar ôl i Horizon gael ei brynu gan Hitachi yn awgrymu y gallai fod rhywfaint o oedi cyn dechrau'r prosiect am y bydd angen i dechnoleg Hitachi gael asesiad cynllun cyffredinol o hyd cyn y gall unrhyw waith ddechrau ond mae datblygiadau mwy diweddar yn awgrymu y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn ystod ein cyfnod rhagamcanu cyfredol. Mewn rhannau eraill o'r sector seilwaith, dengys data Tachwedd 2012 Llywodraeth Cymru Derfynau Gwariant Adrannol cyfalaf ar gyfer ffyrdd, rheilffyrdd a gwasanaethau awyr yn cynyddu yn 2013/14 a 2014/15. Mae Cymru hefyd yn ystyried ffyrdd arloesol o gael gafael ar arian megis Menter Benthyca Llywodraeth Leol.


Disgwylir twf hefyd yn y sector tai preifat a rhagwelir y bydd allbwn yn cynyddu 3.1% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd nesaf hyd at 2017. Roedd y sector wedi dechrau adennill rhywfaint o'r tir a gollwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond, o ganlyniad i ddirywiad amcangyfrifedig o 23%, dychwelodd i lefelau cymharol isel o allbwn unwaith eto. Mae perfformiad economaidd gwan a phryderon ynghylch sicrwydd swyddi, ynghyd â phwysau ar incwm gwario, yn cyfyngu ar alw ar hyn o bryd. Disgwylir i'r amgylchiadau hyn wella dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, gan roi rhywfaint o hwb i'r galw. At hynny, yn 2013, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lansio fersiwn Cymreig o gynllun NewBuy sydd ar waith yn Lloegr, lle y gall benthycwyr gynnig morgeisi o hyd at 95% i'r rhai sy'n gobeithio prynu eiddo sydd wedi'i adeiladu o'r newydd, er mwyn ceisio cefnogi'r sector adeiladu tai newydd.

Rhagwelir y bydd y sector adeiladu masnachol a'r sector adeiladu diwydiannol ond yn gweld twf blynyddol cyfartalog cymedrol ar y gorau, gyda chynnydd o 1.4% ac 1.8% y flwyddyn, yn y drefn honno. Disgwylir i'r ddau sector ddechrau tyfu unwaith eto yn 2014 a gweld cynnydd cymedrol yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill o'r cyfnod rhagamcanu. O ran adeiladu masnachol, mae datblygiadau gwerth bron £1 biliwn yn yr arfaeth ond y cwestiwn yw pryd y byddant yn cael eu rhoi ar waith o ystyried y gwendid yn yr economi ehangach. Dylai adferiad mwy parhaus a chynnydd yn y galw am allforion ysgogi buddsoddi mewn datblygiadau gweithgynhyrchu a datblygiadau masnachol.

Mae'r rhagolygon ar gyfer y sector cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai yn parhau'n besimistaidd a rhagwelir y bydd yn lleihau 1.6% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2013 a 2017. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu perfformiad arbennig o wan yn y byrdymor a disgwylir i'r sector ddechrau dyfu unwaith eto yn 2015. Prosiect Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, sy'n werth £1.4 biliwn, yw'r rhaglen fawr o fuddsoddi mewn addysg ar gyfer y dyfodol, er na fydd yn dechrau tan 2014/15. Fodd bynnag, mae ffynonellau o fewn y diwydiant wedi nodi nad yw'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y rhaglen dros ei hoes o saith mlynedd ond yn cynnwys £130 miliwn yn fwy na'r swm a fydd wedi'i wario dros y saith mlynedd hyd at ei dechrau. Felly, dim ond ychydig o hwb i allbwn a welir.

O ran iechyd, y prosiect mwyaf sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yw'r prosiect gwerth £106 miliwn i ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd yn y Rhyl, y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2018, ar ôl dechrau yn 2011. Mae tri phrosiect yn yr arfaeth sy'n werth dros £100 miliwn yr un, sef y ganolfan gofal critigol arbenigol newydd yn Nhorfaen sy'n werth £273 miliwn, y prosiect gwerth £120 miliwn i adnewyddu ysbyty Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful

### Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn adeiladu 2013-2017 – Cymru




Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2

### Allbwn adeiladu – Cymru (£ miliwn, prisiau 2005)

| | Amcangyfrif | Newid canrannol blynyddol rhagamcanol | | | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2013-17 |
| Tai cyhoeddus | 149 | -25% | 0% | 1% | 1% | 2% | -4.9% |
| Tai preifat | 482 | 1% | 7% | 4% | 2% | 2% | 3.1% |
| Seilwaith | 401 | 1% | 1% | 14% | 47% | 14% | 14.3% |
| Cyhoeddus nad yw'n ymwneud â thai | 451 | -18% | -4% | 5% | 6% | 5% | -1.6% |
| Diwydiannol | 129 | -1% | 3% | 4% | 2% | 2% | 1.8% |
| Masnachol | 758 | -5% | 2% | 4% | 3% | 3% | 1.4% |
| **Gwaith newydd** | **2,370** | **-6%** | **2%** | **6%** | **12%** | **6%** | **3.6%** |
| R&M sy'n ymwneud â thai | 521 | -2% | 1% | 3% | 3% | 2% | 1.4% |
| R&M nad yw'n ymwneud â thai | 472 | -5% | -2% | 1% | 1% | 1% | -0.9% |
| **R&M** | **993** | **-4%** | **-1%** | **2%** | **2%** | **2%** | **0.3%** |
| **Cyfanswm y gwaith** | **3,363** | **-5%** | **1%** | **5%** | **9%** | **5%** | **2.7%** |

Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn 2

a'r uned iechyd meddwl newydd yn Ysbyty Llandoche yng Nghaerdydd sy'n werth £108 miliwn. Disgwylir i'r tri chynllun ddechrau yn 2013 neu 2014.

### 2.10 Ar ôl 2017

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear yn awgrymu y gallai gwaith galluogi ar orsaf ynni niwclear yr Wylfa ar Ynys Môn ddechrau mor gynnar â 2015 a disgwylir i'r prif waith adeiladu ddechrau tua diwedd 2016. Dylai'r gwaith barhau ar ôl y cyfnod rhagamcanu cyfredol ac ni ddisgwylir y bydd yr orsaf yn llawn weithredol tan ddechrau 2023. Felly, bydd yn darparu ffrwd o allbwn ar gyfer y sector adeiladu i mewn i'r 2020au.

Rhoddwyd y gorau i gynlluniau ar gyfer morglawdd llanwol ar draws aber Afon Hafren yn 2010 am yr ystyriwyd bod y gost yn rhy uchel. Fodd bynnag, gofynnodd y Llywodraeth yn ddiweddar am i gynigion ar gyfer y cynllun gwerth £30 biliwn gael eu hailystyried, gydag arian yn dod, o bosibl, gan fuddsoddwyr yn hytrach na'r trethdalwr. Credir y gallai gynhyrchu 5% o drydan y DU a bod yn weithredol am hyd at 120 o flynyddoedd.

Mae Cymru a'r Alban yn parhau'n ymrwymedig i fuddsoddi yn y gwaith o ôl-ffitio'r stoc tai domestig a gallai'r gwaith hwn, ynghyd â buddsoddi mewn mesurau microgynhyrchu, roi hwb sylweddol i allbwn adeiladu ar ôl y cyfnod rhagamcanu cyfredol. Yng Nghymru, mae cynllun Arbed yn mynd rhagddo – cwblhawyd y cam cyntaf yn 2011 – a disgwylir i hyd at £1 biliwn gael ei fuddsoddi o nifer o ffynonellau hyd at 2020.



# 3. Rhagamcanion ynghylch swyddi adeiladu yng Nghymru

## 3.1 Rhagamcanion ynghylch cyfanswm nifer y swyddi adeiladu yn ôl galwedigaeth

Mae'r tabl yn rhoi union nifer y swyddi adeiladu (SICs 41-43, 71.1, a 74.9) yng Nghymru ar gyfer 2011, cyfanswm nifer y swyddi adeiladu a ragwelir mewn 26 o alwedigaethau ac yn y diwydiant yn gyffredinol rhwng 2013 a 2017. Rhoddir dadansoddiad llawn o grwpiau galwedigaethol yn Adran 5 o Esbonio CSN.

Disgwylir i allbwn adeiladu yng Nghymru ddechrau tyfu unwaith eto yn 2014 ond rhagamcanir y bydd y bwlch rhwng allbwn a chyflogaeth yn effeithio ar gyflogaeth hyd at ddiwedd y cyfnod rhagamcanu. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd cyflogaeth yng Nghymru yn sefydlogi yn 2016 a 2017, gan gyrraedd 92,910 erbyn diwedd y cyfnod rhagamcanu. Fodd bynnag, mae gostyngiadau ym mlynyddoedd cynnar y cyfnod rhagamcanu yn golygu y disgwylir i nifer y swyddi adeiladu yng Nghymru leihau 1.5% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y pum mlynedd hyd at 2017.

Yr alwedigaeth adeiladu-benodol fwyaf yng Nghymru yn 2011 oedd crefftau pren a gwaith gosod mewnol a oedd yn cyfrif am 13% o gyfanswm nifer y swyddi adeiladu, wedi'i dilyn gan grefftau plymio a Gwresogi Awyru ac Aerdymheru (HVAC) a oedd yn cyfrif am 8%. Mae hwn yn broffil tebyg i'r DU, er bod y cyfrannau ar gyfer y galwedigaethau hynny ychydig ar wahanol, sef 11% a 6%, yn y drefn honno.

Er i nifer y swyddi adeiladu leihau'n gyffredinol yng Nghymru, rhagwelir y bydd nifer y swyddi yn cynyddu mewn nifer o alwedigaethau dros y cyfnod rhagamcanu, er mai cynnydd bach iawn a welir. Disgwylir mai plastrwyr a leinwyr sych a fydd yn gweld y cynnydd mwyaf mewn cyflogaeth, gyda thwf blynyddol cyfartalog o 1.4%, wedi'u dilyn gan syrfewyr (1%) a mecanyddion/gosodwyr cyfarpar gyda chynnydd cyfartalog o 0.9% y flwyddyn. Mewn cyferbyniad, gweithwyr adeiladu arbenigol nec., gyda lleihad cyfartalog blynyddol o 4.3% a pheintwyr ac addurnwyr, a gosodwyr dur (-3.2% yr un) a fydd yn gweld y lleihad mwyaf sylweddol yn nifer y swyddi.

### Cyfanswm y swyddi yn ôl galwedigaeth – Cymru

| | Gwirioneddol 2011 | Rhagamcan 2013 | 2017 |
|---|---|---|---|
| Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes | 3,590 | 3,560 | 3,540 |
| Rheolwyr adeiladu | 5,250 | 5,300 | 5,510 |
| Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill, nad ydynt yn staff adeiladu | 7,530 | 7,620 | 7,720 |
| Crefftau pren a gwaith gosod mewnol | 13,240 | 12,720 | 12,330 |
| Bricwyr | 4,460 | 4,250 | 3,980 |
| Arbenigwyr amlen adeiladu | 4,500 | 4,330 | 4,150 |
| Peintwyr ac addurnwyr | 6,460 | 5,670 | 5,140 |
| Plastrwyr a leinwyr sych | 1,720 | 1,820 | 1,940 |
| Towyr | 1,040 | 940 | 880 |
| Llorwyr | 1,340 | 1,280 | 1,180 |
| Gwydrwyr | 2,350 | 2,270 | 2,300 |
| Gweithwyr adeiladu arbenigol nec* | 3,520 | 2,950 | 2,590 |
| Sgaffaldwyr | 490 | 480 | 500 |
| Gweithwyr cyfarpar | 1,710 | 1,580 | 1,420 |
| Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar | 1,550 | 1,530 | 1,640 |
| Adeiladwyr dur/strwythurol | 2,460 | 2,250 | 2,020 |
| Llafurwyr nec* | 5,800 | 5,220 | 4,870 |
| Crefftau trydanol a gosod | 5,650 | 5,330 | 4,770 |
| Plymio a Chrefftau HVAC | 8,370 | 7,940 | 7,440 |
| Logisteg | 1,250 | 1,190 | 1,140 |
| Gweithwyr peirianneg sifil nec* | 2,430 | 2,340 | 2,310 |
| Gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu | 3,350 | 3,010 | 2,710 |
| Peirianwyr sifil | 3,180 | 3,210 | 3,150 |
| Staff technegol a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill | 7,120 | 6,770 | 6,590 |
| Penseiri | 1,020 | 1,040 | 1,090 |
| Syrfewyr | 1,840 | 1,860 | 2,000 |
| **Cyfanswm (SIC 41-43)** | **88,060** | **83,580** | **80,080** |
| **Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9)** | **101,220** | **96,460** | **92,910** |

Ffynhonnell: SYG, CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodiadaus 5 a 6
* Nec - heb ei ddosbarthu mewn man arall

## 3.2 Gofynion recriwtio blynyddol (ARR) yn ôl galwedigaeth

Mae'r ARR yn ofyniad gros sy'n ystyried llif y gweithlu i mewn ac allan o'r diwydiant adeiladu, oherwydd ffactorau megis symudiadau rhwng diwydiannau, mudo, salwch ac ymddeol. Fodd bynnag, nid yw'r llif hwn yn cynnwys symudiadau i mewn i'r diwydiant o hyfforddiant, oherwydd natur anghyson a chwmpas data cyflenwi. Felly, mae'r gofyniad recriwtio blynyddol yn rhoi syniad o nifer y cyflogeion newydd y byddai angen eu recriwtio i'r diwydiant adeiladu bob blwyddyn er mwyn sicrhau'r allbwn a ragamcanir.

Dengys y tabl yr ARR ar gyfer y 26 o alwedigaethau yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru. Mae'r ffigur o 2,950 yn dynodi'r gofynion cyfartalog blynyddol yn y diwydiant, ar sail y rhagamcanion ar gyfer allbwn ar gyfer Cymru. Mae hyn yn ystyried 'corddiad' h.y. y llif i mewn ac allan o'r diwydiant, heb gynnwys llif hyfforddiant.

Mae'r ARR ar gyfer Cymru yn cyfateb i 3.1% o'r gyflogaeth sylfaenol ragamcanol ar gyfer 2013, sydd gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU, sef 1.2%, a dyma'r ARR uchaf o blith yr holl ranbarthau a'r gwledydd datganoledig. Mae hyn yn nodweddiadol am fod Cymru yn tueddu i ddioddef all-lif net o weithwyr adeiladu i ddiwydiannau eraill a rhanbarthau eraill, yn enwedig De-orllewin a Gogledd-orllewin Lloegr. Er enghraifft, mae gan Gymru all-lif net cyfartalog blynyddol o fwy na 4,300, sef y pedwerydd uchaf ar ôl De-ddwyrain Lloegr (6,700), Gogledd-orllewin Lloegr (4,800) a De-ddwyrain Lloegr (4,500). Felly, mae ganddi all-lif net sy'n fwy na llawer o ranbarthau sy'n llawer mwy na hi o ran allbwn a chyflogaeth. Os edrychwn ar ranbarth o faint tebyg, sef Gogledd-ddwyrain Lloegr, dim ond all-lif net cyfartalog blynyddol o 1,600 sydd ganddo. Wrth i'r all-lif net gynyddu bydd angen recriwtio mwy o weithwyr i gymryd eu lle.

Mewn termau absoliwt,  gwelir y galw mwyaf o ran galwedigaethau crefftau am lafurwyr nec.(460), bricwyr (380) a chrefftau pren a gwaith gosod mewnol (330). Fodd bynnag, yn nhermau cyflogaeth sylfaenol ar gyfer 2013, disgwylir i'r galw mwyaf fod am weithwyr cyfarpar (12.7%), bricwyr (8.9%), a llafurwyr nec. (8.8%).

Noder bod pob un o'r gofynion recriwtio blynyddol yn yr adran hon yn ofynion cyflogaeth ac nad ydynt o reidrwydd yn ofynion hyfforddi. Y rheswm dros hyn yw y bydd rhai newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant adeiladu, megis gweithwyr mudol medrus neu'r rhai o ddiwydiannau eraill lle mae sgiliau tebyg eisoes yn cael eu defnyddio, yn gallu gweithio yn y diwydiant heb fod angen eu hailhyfforddi rhyw lawer.

Mae gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu yn grŵp galwedigaethol amrywiol sy'n cynnwys pob un o'r gweithgareddau o dan fantell SICs 41-43, 71.1 a 74.9 na ellir eu dosbarthu mewn un man arall, megis glanhawyr, galwedigaethau diogelwch elfennol nec ac arolygwyr a swyddogion profi cyffredinol. Mae'r sgiliau sydd eu hangen yn y galwedigaethau hyn yn hawdd iawn eu trosglwyddo i ddiwydiannau eraill ac mae rhagweld y fath symudiadau yn beryglus am nad oes digon o ddata ategol cadarn. Felly, ni chyhoeddir yr ARR ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu.

Yn olaf, ar gyfer rhai galwedigaethau ni fydd unrhyw ofyniad sylweddol dros y cyfnod rhagamcanu, yn rhannol am fod y dirwasgiad wedi creu 'cronfa' o weithwyr dros ben.

### Gofyniad recriwtio blynyddol yn ôl galwedigaeth – Cymru

| | 2013-2017 |
|---|---|
| Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes | 110 |
| Rheolwyr adeiladu | 190 |
| Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill, nad ydynt yn staff adeiladu | 400 |
| Crefftau pren a gwaith gosod mewnol | 330 |
| Bricwyr | 380 |
| Arbenigwyr amlen adeiladu | 250 |
| Peintwyr ac addurnwyr | - |
| Plastrwyr a leinwyr sych | 50 |
| Towyr | - |
| Llorwyr | 50 |
| Gwydrwyr | 100 |
| Gweithwyr adeiladu arbenigol nec* | - |
| Sgaffaldwyr | <50 |
| Gweithwyr cyfarpar | 200 |
| Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar | - |
| Adeiladwyr dur/strwythurol | - |
| Llafurwyr nec* | 460 |
| Crefftau trydanol a gosod | 50 |
| Plymio a Chrefftau HVAC | 140 |
| Logisteg | 80 |
| Gweithwyr peirianneg sifil nec* | <50 |
| Gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu | - |
| Peirianwyr sifil | <50 |
| Staff technegol a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill | <50 |
| Penseiri | - |
| Syrfewyr | <50 |
| **Cyfanswm (SIC 41-43)** | **2,850** |
| **Cyfanswm (SIC 41-43, 71.1, 74.9)** | **2,950** |

Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodiadaus 5 a 6
* Nec - heb ei ddosbarthu mewn man arall



# 4. Cymariaethau ledled y DU

Yn ddiddorol ddigon, nid yw proffil twf allbwn ar lefel ranbarthol a lefel gwlad ddatganoledig rhwng 2013 a 2017 wedi'i ganoli cymaint ar Dde-ddwyrain Lloegr ag y gallem fod wedi'i ddisgwyl a rhagwelir mai Cymru fydd yn gweld y twf blynyddol cyfartalog cryfaf. Fodd bynnag, mae twf Cymru i'w briodoli bron yn gyfan gwbl i'r orsaf ynni niwclear newydd arfaethedig yn yr Wylfa ar Ynys Môn, gyda thwf blynyddol cyfartalog o 0.6% yn unig os dilëir y prosiect o'r cyfnod rhagamcanu. Er y bydd angen i dechnoleg Hitachi, sef yr Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch (ABWR), gael asesiad cynllun cyffredinol, disgwylir o hyd i'r gwaith adeiladu ddechrau yn ystod y cyfnod rhagamcanu cyfredol.

Mae Gogledd-ddwyrain Lloegr yn adfer o sail isel iawn – gwelodd y rhanbarth y dirywiad mwyaf o blith pob un o ranbarthau Lloegr rhwng 2007 a 2012, gydag allbwn yn lleihau 30% dros y cyfnod – sy'n esbonio'r rhagolygon cymharol gryfach ar gyfer y rhanbarth dros y cyfnod rhagamcanu. Mewn cymhariaeth, lleihaodd allbwn yr Alban 17% yn unig dros yr un cyfnod. Er mwyn dangos sut mae De-ddwyrain Lloegr Fwyaf wedi dod drwy'r pum mlynedd ddiwethaf yn well na mannau eraill, y tri rhanbarth a berfformiodd orau oedd Llundain Fwyaf (+13%), De-ddwyrain Lloegr (-1%) a Dwyrain Lloegr (-7%). Mewn cyferbyniad, mae Gogledd Iwerddon yn adfer o sail hyd yn oed yn is - lleihaodd allbwn 36% rhwng 2007 a 2012. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith iddi weld lleihad mewn gwaith sector cyhoeddus cyn y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig eraill (2010 o gymharu â 2011) sy'n golygu gostyngiadau llai o faint yn y dyfodol, yn awgrymu ei bod yn bosibl bod y rhagolygon ar gyfer Gogledd Iwerddon ychydig yn well na chyfartaledd y DU.


Mae proffil newidiadau mewn cyflogaeth ledled y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig yn wahanol i broffil allbwn dros y cyfnod hyd at 2017. Nid yw'r gydberthynas rhwng yr allbwn cyffredinol a chyflogaeth yn un syml am fod rhai sectorau yn llawer mwy llafurddwys nag eraill ac mae perfformiadau cymharol y sectorau o fewn yr allbwn cyffredinol yn effeithio ar y rhagolygon ar gyfer cyflogaeth ledled y DU. Er enghraifft, mae twf allbwn Cymru yn seiliedig i raddau helaeth ar yr orsaf ynni niwclear newydd yn yr Wylfa a gwaith i adeiladu gorsaf niwclear newydd yw un o'r sectorau lleiaf llafurddwys o'r diwydiant adeiladu. Llundain Fwyaf a Dwyrain Lloegr yw'r unig ddau ranbarth y disgwylir iddynt weld twf mewn cyflogaeth dros y cyfnod rhagamcanu, a hyd yn oed yma mae'n wan iawn.

At hynny, mae problem tangyflogaeth yn y diwydiant yn dod i'r amlwg, a fydd yn effeithio ar ba mor gyflym y mae nifer y swyddi adeiladu mewn rhanbarth a gwlad ddatganoledig benodol yn dechrau cynyddu eto. Er enghraifft, amcangyfrifir i allbwn yng Ngogledd-orllewin Lloegr leihau 29% rhwng 2007 a 2012 mewn termau real, tra gostyngodd cyflogaeth 11% yn unig dros yr un cyfnod. Mae'r 'bwlch' mawr hwn rhwng allbwn a chyflogaeth yn awgrymu nad yw cwmnïau yn y rhanbarth wedi bod yn diswyddo staff i'r un graddau ag y mae gweithgarwch wedi bod yn lleihau. Felly, mae'n debyg y bydd cwmnïau yn parhau i ddileu swyddi yn y rhanbarth am beth amser ar ôl i allbwn ddechrau gwella. Gwelwyd proffil tebyg o ran lleihad mewn allbwn a chyflogaeth ledled sawl rhanbarth a gwlad ddatganoledig i wahanol raddau, gyda'r 'bwlch' yn tyfu y tu allan i Dde-ddwyrain Lloegr Fwyaf. Ymddengys fod hyn wedi effeithio mwy ar rannau o'r DU lle y ceir mwy o weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol nag ar ardaloedd sy'n canolbwyntio mwy ar isgontractwyr llafur yn unig o ran swyddi adeiladu.




Rhagwelir y bydd cyflogaeth yng Nghymru yn sefydlogi yn 2016 a 2017, gan gyrraedd 92,910 erbyn diwedd y cyfnod rhagamcanu

## Twf cyfartalog blynyddol mewn allbwn yn ôl rhanbarth 2013-2017




Ffynhonnell: CSN, Experian
cyf. Esbonio CSN, Adran 3, Nodyn2

## Gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) yn ôl rhanbarth 2013-2017




Ffynhonnell: CSN, Experian





# Esbonio CSN

## Mae’r atodiad hwn yn darparu manylion ac eglurhad pellach am rai o’r pwyntiau a wneir yn yr adroddiad.

Mae Adran 1 yn cynnig trosolwg o’r dulliau sylfaenol a ddefnyddir gan CSN, trwy weithio mewn partneriaeth ag Experian, i greu’r gyfres o adroddiadau ar lefel y DU, ar lefel genedlaethol ac ar lefel ranbarthol.

Mae Adran 2 yn darparu rhestr termau er mwyn egluro rhai o’r termau a ddefnyddir yn yr adroddiadau, ac mae adran 3 yn cynnwys rhai nodiadau pellach sy’n ymwneud â’r ffynonellau data a ddefnyddir ar gyfer y siartiau a’r tablau amrywiol. Mae adran 3 hefyd yn amlinellu’r hyn a olygir gan y term ôl troed, pan drafodir y meysydd cyfrifoldeb sydd gan Gyngor Sgiliau Sector.

Mae Adran 4 yn esbonio’r diffiniadau o sectorau a ddefnyddir yn yr adroddiad, gan ddarparu enghreifftiau o’r hyn sy’n cael ei gynnwys ym mhob un.

Mae Adran 5 yn cynnig dadansoddiad manwl o’r 26 o grwpiau galwedigaethol yn unol â’r codau dosbarthiad galwedigaethol safonol (SOC) unigol sy’n cael eu cyfuno er mwyn darparu’r gofyniad cyflogaeth a recriwtio.

Yna, mae Adran 6 yn gorffen trwy nodi manylion am amrediad yr adroddiadau LMI, manteision bod yn aelod o CSN a’r manylion cyswllt os bydd gan bobl ddiddordeb mewn ymuno.





# 1. Methodoleg CSN

## Cefndir

Mae'r **Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu** wedi bod yn datblygu ers iddo gael ei lansio yn 2005, gan weithredu fel cyfrwng i CITB-SgiliauAdeiladu gasglu a chynhyrchu gwybodaeth am anghenion hyfforddi a chyflogaeth y diwydiant ar gyfer y dyfodol. Mae CITB-SgiliauAdeiladu, CIC a CITB Gogledd Iwerddon yn gweithio fel SgiliauAdeiladu, y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Adeiladu, er mwyn cynhyrchu Gwybodaeth gadarn am y Farchnad Lafur, a fydd yn cynnig sail er mwyn gallu cynllunio ar gyfer anghenion sgiliau yn y dyfodol a thargedu buddsoddiad.

Mae'r CSN yn gweithredu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae'n cynnwys Grŵp Cenedlaethol, 12 grŵp Arsylwi, model rhagamcanu ar gyfer pob rhanbarth a gwlad, a Grŵp Cyfeirio Technegol. Mae grŵp Arsylwi yn gweithredu ym mhob un o'r naw rhanbarth yn Lloegr ar hyn o bryd, yn ogystal ag yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Ar hyn o bryd, mae grwpiau Arsylwi yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac maent yn cynnwys rhanddeiliaid rhanbarthol allweddol a wahoddwyd o'r diwydiant, y Llywodraeth, byd addysg ac o Gynghorau Sgiliau Sector (CSSau) eraill, ac maent oll yn cyfrannu gwybodaeth am y diwydiant lleol a safbwyntiau ynghylch hyfforddiant, sgiliau, recriwtio, cymwysterau a pholisi. Mae'r Grŵp Cenedlaethol hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r diwydiant, Llywodraeth, byd addysg ac o CSSau eraill. Mae'r Grŵp hwn yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn nodi'r sefyllfa genedlaethol, gan ddarparu cefndir ar gyfer y grwpiau Arsylwi i bob pwrpas.

Wrth wraidd CSN, ceir nifer o fodelau rhagamcanu sy'n cynhyrchu rhagamcanion ynghylch gofynion cyflogaeth o fewn y diwydiant ar gyfer amrywiaeth o grwpiau galwedigaethol. Caiff y modelau eu cynllunio a'u rheoli gan Experian o dan arweiniad annibynnol y Grŵp Cyfeirio Technegol, sy'n cynnwys ystadegwyr ac arbenigwyr ym maes modelu, sydd hefyd yn eu dilysu. Mae'r Modelau hyn wedi'u datblygu dros amser, a byddant yn parhau i gael eu datblygu, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrif am ymchwil newydd wrth iddi gael ei chyhoeddi yn ogystal â thechnegau modelu newydd a gwell. Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Grŵp Cyfeirio Technegol y caiff newidiadau eu gwneud i'r model yn y dyfodol.

## Dull modelau

Mae'r dull modelau yn dibynnu ar gyfuniad o waith ymchwil sylfaenol a safbwyntiau gan CSN i'w hwyluso. Defnyddir data cenedlaethol fel sail i'r tybiaethau sy'n ymestyn y modelau, a gaiff eu haddasu wedyn gyda chymorth y grwpiau Arsylwi a'r Grŵp Cenedlaethol. Mae gan bob rhanbarth yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fodel ar wahân (er bod pob model yn gydberthynol o ganlyniad i symudiadau llafur) ac, yn ogystal, ceir un model cenedlaethol sy'n cyfyngu ar y modelau unigol ac yn sicrhau y gellir gwneud y defnydd gorau o'r data mwyaf cadarn (sydd ar gael ar y lefel genedlaethol). Mae'r modelau yn rhagamcanu'r galw am weithwyr medrus, a'u cyflenwad, ar wahân. Y gwahaniaeth rhwng y galw a'r cyflenwad yw'r gofyniad cyflogaeth.

Ceir cyfanswm nifer y swyddi a ragwelir o ddisgwyliadau ynghylch allbwn a chynhyrchiant adeiladu. Yn y bôn, mae hyn yn seiliedig ar y cwestiwn 'Faint o bobl fydd eu hangen er mwyn cynhyrchu'r allbwn a ragamcanwyd, o ystyried y tybiaethau a wnaethpwyd ynghylch cynhyrchiant?'.

Mae'r **gofyniad recriwtio blynyddol (ARR)** yn ofyniad gros sy'n ystyried llif y gweithlu i mewn ac allan o'r diwydiant adeiladu, oherwydd ffactorau megis symudiadau rhwng diwydiannau, mudo, salwch ac ymddeol. Fodd bynnag, nid yw'r llifau hyn yn cynnwys symudiadau i mewn i'r diwydiant o hyfforddiant, oherwydd natur anghyson a chwmpas data cyflenwi. Felly, mae'r gofyniad recriwtio blynyddol yn rhoi syniad o nifer y cyflogeion newydd y byddai angen eu recriwtio i'r diwydiant adeiladu bob blwyddyn er mwyn sicrhau'r allbwn a ragamcanir.

Mae'r galw yn seiliedig ar ganlyniadau grwpiau trafod sy'n cynnwys arbenigwyr o'r diwydiant, darlun o allbwn adeiladu a set o fodelau integredig sy'n ymwneud â pherfformiad economaidd rhanbarthol a chenedlaethol ehangach. Mae'r modelau yn ddynamig ac yn adlewyrchu'r hinsawdd economaidd gyffredinol yn y DU ar unrhyw adeg. Er mwyn cynhyrchu'r galw am lafur, mae'r modelau yn defnyddio set o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith, y maent yn pennu nifer y swyddi, fesul crefft, sydd eu hangen er mwyn creu'r lefelau a ragwelir o ran allbwn adeiladu. Mae'r cyflenwad llafur ar gyfer pob math o grefft neu broffesiwn yn seiliedig ar gyflenwad y flwyddyn flaenorol (cyfanswm y stoc cyflogaeth), wedi'i gyfuno â llif i mewn ac allan o'r farchnad lafur.

Mae'r gollyngiadau (all-lifau) allweddol y bydd angen eu hystyried, fel a ganlyn:


- trosglwyddiadau i ddiwydiannau eraill
- allfudo rhyngwladol/domestig
- ymddeoliadau parhaol (gan gynnwys y rhai sy'n dioddef salwch parhaol)
- all-lif i ddyletswyddau cartref a'r rhai sydd â salwch dros dro.

Mae'n debygol mai trosglwyddo i ddiwydiannau eraill fydd y prif reswm dros all-lif.

Mae llif i mewn i'r farchnad lafur yn cynnwys:

- trosglwyddiadau i mewn i'r diwydiant o ddiwydiannau eraill
- mewnfudo rhyngwladol/domestig
- mewnlif o ddyletswyddau cartref a'r rhai sydd wedi bod yn dioddef salwch dros dro.

Mae'n debygol mai trosglwyddo o ddiwydiannau eraill fydd y llif mwyaf sylweddol. Rhoddir crynodeb o'r model yn y siart llif.





# 2. Rhestr Termau

- **Arbenigwyr amlen adeilad** – unrhyw grefft sy'n ymwneud â chladin allanol yr adeilad ac eithrio bricwaith, e.e. llenfuriau.
- **Galw** – caiff y galw ei gyfrifo trwy ddefnyddio data ynghylch allbwn adeiladu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ac Adran Gyllid a Phersonél Gogledd Iwerddon (DFP), ynghyd â data ynghylch swyddi gwag o'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Cenedlaethol, gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Caiff y setiau data hyn eu trosi yn ofynion llafur yn ôl crefft trwy ddefnyddio cyfres o gyfernodau er mwyn cynhyrchu'r galw am lafur sy'n ymwneud â'r lefelau allbwn a ragamcanir.
- **CMC** – Cynnyrch Mewnwladol Crynswth – cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau nwyddau terfynol a gynhyrchir, ar y farchnad. Mesur o incwm cenedlaethol. CMC=GYC a threthi ar gynhyrchion llai cymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchion.
- **GYC** – Gwerth Ychwanegol Crynswth – cyfanswm yr allbwn llai gwerth y mewnbynnau a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu. Mae GYC yn mesur cyfraniad yr economi fel gwahaniaeth rhwng allbwn gros ac allbynnau canolradd.
- **Cyfernodau** – Er mwyn cynhyrchu'r galw am lafur, mae'r model yn defnyddio set o ystadegau penodol ar gyfer pob prif fath o waith er mwyn pennu nifer y swyddi, yn ôl crefft neu broffesiwn, ar sail cyflenwad y flwyddyn flaenorol. Yn ei hanfod, dyma nifer y gweithwyr ym mhob galwedigaeth/crefft sydd eu hangen i gynhyrchu allbwn o £1m ym mhob is-sector.
- **LFS (Arolwg o'r Llafurlu)** – arolwg a anfonir i sampl o gartrefi yn y DU, sy'n casglu gwybodaeth am gyflogaeth, diweithdra, llif rhwng sectorau a hyfforddiant, gan tua 53,000 o gartrefi bob chwarter (>100,000 o bobl).
- **LMI (Gwybodaeth am y Farchnad Lafur)** – data meintiol (rhifol) neu ansoddol (dirnadaeth a thybiaethau) ar gyflogwyr, cyflogau, amodau gwaith, ac ati.
- **Macro-economeg** – astudio economi ar lefel genedlaethol, gan gynnwys cyfanswm nifer y swyddi, lefelau buddsoddi, mewnforion, allforion, cynhyrchiant a threuliant.
- **Nec** – heb ei ddosbarthu mewn man arall, a ddefnyddir fel cyfeirnod mewn data LFS.
- **SYG** – Swyddfa Ystadegau Gwladol – ystadegau gwladol am yr economi, poblogaeth a chymdeithas ar lefel y DU ac ar lefel leol.
- **Allbwn** – cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir mewn economi.
- **Cynhyrchiant** – allbwn fesul cyflogai.
- **Codau SIC** – Codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol – o Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU o Weithgareddau Economaidd, a gynhyrchir gan SYG.
- **Codau SOC** – Codau Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol.
- **Cyflenwad** – cyfanswm y stoc cyflogaeth mewn cyfnod a'r llif i mewn ac allan o'r farchnad lafur. Fel arfer, caiff cyflenwad ei gyfrifo gan ddefnyddio data LFS.







# 3 Nodiadau ac olion troed

## Nodiadau

1 Ac eithrio Gogledd Iwerddon, darperir data am allbwn y rhanbarthau yn Lloegr, Cymru a'r Alban gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar sail prisiau cyfredol. Felly, defnyddiwyd datchwyddwyr cenedlaethol a luniwyd gan SYG er mwyn datchwyddo i sail prisiau cyson 2005, h.y. dilëwyd effeithiau chwyddiant.

2 Mae cyfradd twf gyfartalog genedlaethol allbwn yn gyfradd twf gyfartalog gyfansawdd, h.y. faint y byddai'r allbwn yn tyfu bob blwyddyn pe bai'n cynyddu'n raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn yn ystod y cyfnod rhagamcanu.

3 Dim ond elfennau dethol o werth ychwanegol crynswth (GYC) a ddangosir yn y tabl hwn, felly nid ydynt yn nodi'r cyfanswm.

4 Ar gyfer archebion adeiladu newydd, gwneir cymhariaeth â Phrydain, yn hytrach na'r DU, am nad oes unrhyw gyfresi data archebion ar gyfer Gogledd Iwerddon.

5 Caiff nifer y swyddi ei thalgrynnu i'r 10 agosaf.

6 Mae'r tablau yn cynnwys data sy'n ymwneud â phlymwyr a thrydanwyr. Fel rhan o SIC 43, mae plymwyr a thrydanwyr sy'n gweithio ym maes contractio yn rhan annatod o'r broses adeiladu. Fodd bynnag, mae CITB-SgiliauAdeiladu yn cydnabod mai SummitSkills sy'n gyfrifol am y galwedigaethau hyn ar draws amrediad o godau SIC, gan gynnwys SIC 43.2.

7 Dengys y tablau cyflogaeth ac ARR gyfansymiau ar wahân ar gyfer SIC 41-43 a SIC 41-43, 71.1 a 74.9. Mae'r cyfanswm ar gyfer SIC 41-43 yn cynnwys y 22 grŵp galwedigaethol cyntaf ar y tablau perthnasol ac nid yw'n cynnwys peirianwyr sifil, gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill a staff technegol, penseiri na syrfewyr. Mae'r cyfanswm ar gyfer SIC 41-43, 71.1 a 74.9 yn cynnwys pob galwedigaeth.

## Olion Troed ar gyfer CSSau yr Amgylchedd Adeiledig

Mae CITB-SgiliauAdeiladu yn gyfrifol am SIC 41 Adeiladu, SIC 42 Peirianneg Sifil, SIC 43 Gweithgareddau Adeiladu Arbenigol a SIC 71.1 gweithgareddau Pensaernïol; Profi a Dadansoddi Technegol.

Mae'r tabl yn crynhoi'r codau SIC (2007) yr ymdrinnir â hwy gan CITB-SgiliauAdeiladu:

Yr olion troed sector ar gyfer y CSSau eraill sy'n ymdrin â'r amgylchedd adeiledig:

### SummitSkills

**Ôl troed** – Plymio, Gwresogi, Awyru, Aerdymheru, Rheweiddio ac Electrodechnegol.

**Yn cynnwys** – Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu.

Mae CITB-SgiliauAdeiladu yn rhannu diddordeb â SummitSkills yn SIC 43.21 Gosod cyfarpar trydanol a SIC 43.22 Gosod systemau plymio, gwresogi ac awyrdymheru. Mae CITB-SgiliauAdeiladu yn cydnabod cyfrifoldeb Summit Skills ar draws Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol (SIC) 43.21 a 43.22, felly caiff data sy'n ymwneud â'r sector Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu ei gynnwys yma, yn bennaf er mwyn cynnig darlun llawn.

### AssetSkills

Ôl troed – Gwasanaethau Eiddo, Tai, Rheoli Cyfleusterau, Glanhau.

Yn cynnwys – Rheolwyr Eiddo, Tai a Thir, Syrfewyr Siartredig, Amcangyfrifwyr, Priswyr, Archwilwyr Cartrefi, Asiantau Tai ac Arwerthwyr (eiddo a chelfi), Gofalwyr, Gweithwyr Peiriannau a Gweithwyr Symudol, Glanhawyr Ffenestri, Ysgubwyr Ffordd, Glanhawyr, Gwaith Domestig, Rheolwyr Cyfleusterau.

Mae gan AssetSkills ddiddordeb ymylol yn SIC 71.1 Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg a gwasanaethau ymgynghori technegol cysylltiedig.

### Sgiliau Ynni a Chyfleustodau

**Ôl troed** – Trydan, Nwy (gan gynnwys gosodwyr nwy), Dŵr a Rheoli Gwastraff.

**Yn cynnwys** – Cynhyrchu a dosbarthu trydan; Trosglwyddo a dosbarthu nwy a gosod a chynnal a chadw dyfeisiau nwy; Casglu, puro a dosbarthu dŵr; Casglu a phrosesu dŵr gwastraff; Rheoli Gwastraff.

| CITB-SgiliauAdeiladu | |
|---|---|
| **Cod SIC** | **Disgrifiad** |
| 41.1 | Datblygu prosiectau adeiladu |
| 41.2 | Codi adeiladau preswyl a dibreswyl |
| 42.1 | Adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd |
| 42.2 | Adeiladu prosiectau cyfleustodau |
| 42.9 | Adeiladu prosiectau peirianneg sifil eraill |
| 43.1 | Dymchwel a pharatoi safleoedd |
| 43.3 | Cwblhau a gorffen adeiladau |
| 43.9 | Gweithgareddau adeiladu arbenigol nec eraill |
| 71.1* | Gweithgareddau pensaernïol a pheirianneg a gwasanaethau ymgynghori technegol cysylltiedig |

* Mae gan AssetSkills ddiddordeb ymylol yn SIC 71.1



# 4 Diffiniadau: mathau ac enghreifftiau o waith adeiladu

## Tai sector cyhoeddus – awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, trefi newydd ac adrannau'r llywodraeth

Cynlluniau tai, cartrefi hen bobl a darparu ffyrdd a gwasanaethau ar gyfer nwy, dŵr, trydan, carthion a draeniau ar safleoedd tai.

### Tai sector preifat

Yr holl adeiladau preifat at ddefnydd preswyl, megis tai, fflatiau a fflatiau deulawr, byngalos, bythynnod a darparu gwasanaethau ar gyfer datblygiadau newydd.

## Seilwaith - cyhoeddus a phreifat

### Dŵr

Cronfeydd dŵr, gweithfeydd puro, argaeau, gweithfeydd dŵr, gorsafoedd pwmpio, prif gyflenwad dŵr, gwaith hydrolig ac ati.

### Carthffosydd

Gweithfeydd gwaredu carthion, gosod carthffosydd a ffosydd agored.

### Trydan

Gwaith peirianneg sifil ac adeiladu ar gyfer ymgymeriadau trydanol megis gorsafoedd pŵer, argaeau a gwaith arall ar gynlluniau trydan dŵr, ffermydd gwynt ar y tir a datgomisiynu gorsafoedd pŵer niwclear.

### Nwy, cyfathrebu, trafnidiaeth awyr

Gweithfeydd nwy, prif gyflenwad nwy a storio nwy; swyddfeydd post, swyddfeydd didoli, cyfnewidfeydd ffôn, canolfannau dargyfeirio ac ati; terfynellau awyr, llwybrau glanio, siediau awyrennau, neuaddau derbyn, gosodiadau radar.

### Rheilffyrdd

Ffordd barhaol, twnelau, pontydd, hafnau, gorsafoedd, cytiau locomotifau ac ati, signalau a systemau rheoli eraill a thrydanu rheilffyrdd ar y tir a rheilffyrdd tanddaearol.

### Harbwrs

Unrhyw waith ac adeiladau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â harbwrs, glanfeydd, dociau, pierau, camlesi a dyfrffyrdd, morgloddiau, argloddiau ac amddiffynfeydd dŵr.

### Ffyrdd

Ffyrdd, palmentydd, pontydd, llwybrau troed, goleuadau, twnelau, trosffyrdd, ffensys ac ati.

## Adeiladu cyhoeddus dibreswyl[1]

### Ffatrïoedd a warysau

Ffatrïoedd, warysau, canolfannau sgiliau sy'n eiddo cyhoeddus.

### Olew, dur, glo

Bellach wedi'i gyfyngu i waith adfer ar gyfer cyrff gweddilliol y sector cyhoeddus.

### Ysgolion, colegau, prifysgolion

Ysgolion a cholegau gwladol (gan gynnwys colegau technegol ac athrofeydd amaethyddol); prifysgolion, gan gynnwys neuaddau preswyl, sefydliadau ymchwil ac ati.

### Iechyd

Ysbytai, gan gynnwys ysgolion meddygol, clinigau, canolfannau lles, canolfannau hyfforddi oedolion.

### Swyddfeydd

Swyddfeydd Llywodraeth leol a chanolog, gan gynnwys neuaddau tref, swyddfeydd ar gyfer yr holl gyrff cyhoeddus ac eithrio'r lluoedd arfog, pencadlys yr heddlu.

### Adloniant

Theatrau, bwytai, pyllau nofio cyhoeddus, safleoedd carafannau mewn cyrchfannau gwyliau, gwaith ac adeiladau ar feysydd chwaraeon, stadia, caeau rasio ac ati, sy'n eiddo i awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill.

### Garejis

Adeiladau ar gyfer storio, atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau ffordd, gweithdai trafnidiaeth, depos bysiau, depos trafnidiaeth nwyddau ffyrdd a meysydd parcio.

### Siopau

Datblygiadau siopa trefol y mae Awdurdod Lleol wedi rhoi'r contract ar eu cyfer.

### Amaethyddiaeth

Adeiladau a gwaith mewn sefydliadau garddwriaethol sy'n cael arian cyhoeddus; draenio corstiroedd a draenio amaethyddol; clinigau milfeddygol.

### Amrywiol

Unrhyw waith nas cwmpesir yn glir gan unrhyw benawdau eraill, megis gorsafoedd tân, gorsafoedd heddlu, carchardai, penydfeydd, cartrefi remand, gwaith amddiffyn sifil, gwaith ar gyfer Awdurdod Ynni Atomig y DU, depos cynghorau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd.

### Gwaith diwydiannol preifat

Ffatrïoedd, warysau, depos cyfanwerthu, unrhyw waith ac adeiladau eraill at ddibenion cynhyrchu neu brosesu diwydiannol, purfeydd, piblinellau a therfynellau olew, platfformau cynhyrchu olew â choesau concrid sefydlog (nid llwyfannau); gwaith dur preifat; unrhyw waith sy'n gysylltiedig ag adeiladu pyllau glo newydd megis agor siafftiau, twnelu ac ati.

[1] Pan ddyfernir contractau ar gyfer adeiladu neu wella adeiladau dibreswyl a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, megis ysbytai, gan ddeiliaid contractau yn y sector preifat, a ddyfarnwyd dan Fenter Cyllid Preifat, caiff y gwaith ei ddosbarthu'n waith 'masnachol preifat'.



## Gwaith masnachol preifat[2]

### Ysgolion a phrifysgolion

Ysgolion a cholegau yn y sector preifat, sy'n cael eu hariannu'n llwyr gan gronfeydd preifat.

### Iechyd

Ysbytai, cartrefi nyrsio a chlinigau preifat.

### Swyddfeydd

Adeiladau swyddfa, banciau.

### Adloniant

Theatrau, neuaddau cyngerdd, sinemâu, gwestai, tafarndai, bwytai, caffis, gwersylloedd gwyliau, pyllau nofio, gwaith ac adeiladau ar feysydd chwaraeon, stadia a safleoedd chwaraeon neu hamdden eraill, hostelau ieuenctid, sy'n eiddo preifat.

### Garejis

Garejis atgyweirio, gorsafoedd petrol, depos bysiau, depos cludo nwyddau ac unrhyw waith neu adeiladau eraill ar gyfer storio, atgyweirio neu gynnal a chadw cerbydau ffordd, meysydd parcio.

### Siopau

Unrhyw adeiladau a ddefnyddir i ddosbarthu nwyddau i safleoedd manwerthu, megis siopau, siopau adrannol, marchnadoedd manwerthu, ystafelloedd arddangos, ac ati.

### Amaethyddiaeth

Unrhyw adeiladau a gwaith ar ffermydd, sefydliadau garddwriaethol.

### Amrywiol

Unrhyw waith nas cwmpesir yn glir gan unrhyw bennawd arall, e.e. arddangosfeydd, meysydd carafannau, eglwysi, neuaddau eglwys.

## Gwaith newydd

### Tai newydd

Adeiladu tai, fflatiau a byngalos newydd yn unig.

### Pob math arall o waith

Unrhyw waith adeiladu newydd ac unrhyw waith y gellir cyfeirio ato fel gwaith gwella, adnewyddu neu ailwampio, sy'n ychwanegu at werth yr eiddo[3].

## Atgyweirio a chynnal a chadw

### Tai

Unrhyw waith i drawsnewid neu ymestyn unrhyw annedd sy'n bodoli eisoes, ac unrhyw waith arall megis gwaith gwella, adnewyddu, ailwampio, gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac unrhyw fath arall o wariant ar waith atgyweirio neu gynnal a chadw.

### Pob sector arall

Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw o bob math, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw cytundebol[4].



[2] Pan ddyfernir contractau ar gyfer adeiladu neu wella adeiladau dibreswyl a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, megis ysbytai, gan ddeiliaid contractau yn y sector preifat, a ddyfarnwyd dan Fenter Cyllid Preifat, caiff y gwaith ei ddosbarthu'n waith 'masnachol preifat'.

[3] Efallai na fydd contractwyr sy'n rhoi gwybod am waith bob amser yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng gwaith gwella neu adnewyddu a gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y sectorau dibreswyl.

[4] Ac eithrio lle y nodir, caiff cynlluniau datblygiad cymysg eu dosbarthu i ba sector bynnag sy'n darparu'r rhan fwyaf (h.y. dros 50%) o'r cyllid.

# 5 Grwpiau Galwedigaethol



### Grŵp galwedigaethol
Disgrifiad, cyfeirnod SOC (2000).

### Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwyr prosesau busnes
Cyfarwyddwyr a phrif weithredwyr sefydliadau mawr, 1112
Uwch swyddogion mewn llywodraeth leol, 1113
Rheolwyr cyllid ac ysgrifenyddion siartredig, 1131
Rheolwyr gwerthu a marchnata, 1132
Rheolwyr prynu, 1133
Rheolwyr hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus, 1134
Rheolwyr personél, hyfforddiant a chysylltiadau diwydiannol, 1135
Rheolwyr swyddfa, 1152
Swyddogion gweithredol y gwasanaeth sifil, 4111
Rheolwyr eiddo, tai a thir, 1231
Rheolwyr technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, 1136
Rheolwyr ymchwil a datblygu, 1137
Rheolwyr gofal cwsmeriaid, 1142
Rheolwyr storio a warysau, 1162
Rheolwyr diogelwch, 1174
Rheolwyr cadwraeth a'r amgylchedd naturiol, 1212
Rheolwyr a pherchnogion mewn gwasanaethau eraill nec*, 1239

### Rheolwyr adeiladu
Rheolwyr cynhyrchu, gwaith a chynnal a chadw, 1121
Rheolwyr adeiladu, 1122
Rheolwyr sicrhau ansawdd, 1141
Rheolwyr trafnidiaeth a dosbarthu, 1161
Rheolwyr ailgylchu a gwaredu gwastraff, 1235
Rheolwyr cloddio ac ynni, 1123
Glanweithwyr galwedigaethol a swyddogion diogelwch (IaD), 3567
Swyddogion cadwraeth a diogelu'r amgylchedd, 3551

### Staff proffesiynol, technegol, TG a staff swyddfa eraill nad ydynt yn staff adeiladu (heb gynnwys rheolwyr)
Technegwyr gweithrediadau TG, 3131
Technegwyr cymorth defnyddwyr TG, 3132
Amcangyfrifwyr, priswyr ac aseswyr, 3531
Cynghorwyr/dadansoddwyr buddsoddi a chyllid, 3534
Arbenigwyr treth, 3535
Technegwyr cyfrifyddu ac ariannol, 3537
Hyfforddwyr galwedigaethol a diwydiannol, 3563
Gweithwyr proffesiynol busnes a chyswllt cysylltiedig nec*, 3539
Gweithwyr proffesiynol cyswllt cyfreithiol, 3520
Archwilwyr ffatrïoedd, cyfleustodau a safonau masnach, 3565
Gweithwyr proffesiynol meddalwedd, 2132
Gweithwyr proffesiynol cynllunio a strategaeth TG, 2131
Asiantau tai, arwerthwyr, 3544
Cyfreithwyr, barnwyr a chrwneriaid, 2411
Gweithwyr cyfreithiol proffesiynol nec*, 2419
Cyfrifwyr siartredig ac ardystiedig, 2421
Cyfrifwyr rheoli, 2422
Ymgynghorwyr rheoli, actiwarïaid, economegwyr ac ystadegwyr, 2423
Derbynyddion, 4216
Teipyddion, 4217
Cynrychiolwyr gwerthu, 3542
Swyddogion a chynorthwywyr gweinyddol y Gwasanaeth Sifil, 4112
Swyddogion a chynorthwywyr clerigol llywodraeth leol, 4113
Clercod cyfrifon a chyflogau, llyfrifwyr, clercod ariannol eraill, 4122
Clercod/cynorthwywyr ffeilio a chofnodion eraill, 4131
Clercod rheoli stoc, 4133
Clercod/cynorthwywyr cronfeydd data, 4136
Teleffonyddion, 4141
Gweithwyr cyfathrebu, 4142
Clercod/cynorthwywyr swyddfa cyffredinol, 4150
Cynorthwywyr personol ac ysgrifenyddion eraill, 4215
Cynorthwywyr gwerthu a manwerthu, 7111
Swyddogion gwerthu dros y ffôn, 7113
Prynwyr a swyddogion prynu (50%), 3541
Gweithwyr proffesiynol cyswllt marchnata, 3543
Swyddogion cysylltiadau diwydiannol a phersonél, 3562
Rheolwyr credyd, 4121
Cyfwelwyr ymchwil y farchnad, 4137
Ysgrifenyddion cwmni (heb gynnwys ysgrifenyddion siartredig cymwys), 4214
Galwedigaethau sy'n gysylltiedig â gwerthu nec*, 7129
Asiantau/gweithwyr mewn canolfannau galwadau, 7211
Galwedigaethau gofal cwsmeriaid, 7212
Galwedigaethau swyddfa elfennol nec*, 9219

### Crefftau pren a gwaith gosod mewnol
Seiri ac asiedyddion, 5315
Gwneuthurwyr patrymau, 5493
Gweithwyr peiriannau pren a phapur, 8121
Gwneuthurwyr dodrefn, seiri coed mewn crefftau eraill, 5492
Llafurwyr mewn crefftau adeiladu a gwaith coed (9%), 9121
Crefftau adeiladu nec* (25%), 5319

### Bricwyr
Bricwyr, seiri maen, 5312

### Arbenigwyr amlen adeilad
Crefftau adeiladu nec* (50%), 5319
Llafurwyr mewn crefftau adeiladu a gwaith coed (5%), 9121

### Peintwyr ac addurnwyr
Peintwyr ac addurnwyr, 5323
Crefftau adeiladu nec* (5%), 5319

### Plastrwyr a leinwyr sych
Plastrwyr, 5321

### Towyr
Towyr a theilswyr to, 5313

### Llorwyr
Llorwyr a theilswyr waliau, 5322

### Gwydrwyr
Gwydrwyr, gwneuthurwyr a gosodwyr ffenestri, 5316
Crefftau adeiladu nec* (5%), 5319



### Gweithwyr adeiladu arbenigol nec*
Gweithwyr adeiladu nec* (80%), 8149
Crefftau adeiladu nec* (5%), 5319
Galwedigaethau prosesau glanhau diwydiannol, 9132

### Sgaffaldwyr
Sgaffaldwyr, gosodwyr llwyfannau, rigwyr, 8141

### Gweithwyr cyfarpar
Gyrwyr craeniau, 8221
Gweithwyr cyfarpar a pheiriannau nec*, 8129
Gweithwyr trafnidiaeth nec*, 8219
Gyrwyr wagenni fforch godi, 8222
Gweithwyr a gyrwyr peiriannau symudol nec*, 8229
Gyrwyr peiriannau amaethyddol, 8223

### Mecanyddion/gosodwyr cyfarpar
Gosodwyr cynnal a chadw a chynhyrchu gwaith metel, 5223
Mecanyddion cerbydau modur, peirianwyr modurol, 5231
Llafurwyr mewn gweithrediadau cyfarpar a phroses nec*, 9139
Gwneuthurwyr offer, gosodwyr offer a marcwyr, 5222
Gweithwyr adeiladu ac atgyweirio cyrff cerbydau, 5232
Trydanwyr modurol, 5233
Gweithwyr chwistrell-baentio cerbydau, 5234
Gosodwyr teiars, pibellau gwagio a ffenestri blaen, 8135

### Gosodwyr dur/strwythurol
Gosodwyr dur, 5311
Crefftau weldio, 5215
Gweithwyr llenfetel, 5213
Gweithwyr platiau metel, adeiladwyr llongau a rhybedwyr, 5214
Crefftau adeiladu nec* (5%), 5319
Gofaint a gweithwyr gefail, 5211
Mowldwyr, cynhyrchwyr craidd, gweithwyr deigastio, 5212
Gosodwyr peiriannu metel a hogwyr, 5221

### Llafurwyr nec*
Llafurwyr yn y crefftau adeiladu a gwaith coed (80%), 9121

### Gwaith gosod a chrefftau trydanol
Trydanwyr, gosodwyr trydanol, 5241
Peirianwyr trydanol/electronig nec*, 5249
Peirianwyr telathrebu, 5242
Gweithwyr atgyweirio llinellau ac uniadwyr ceblau, 5243
Peirianwyr teledu, fideo a sain, 5244
Peirianwyr, gosodwyr a gweithwyr cynnal a chadw cyfrifiaduron, 5245

### Crefftau plymio a gwresogi, awyru, ac aerdymheru
Plymwyr a chrefftau HVAC, 5314
Gosodwyr pibellau, 5216
Llafurwyr mewn crefftau adeiladu a gwaith coed (6%), 9121
Crefftau adeiladu nec* (5%), 5319

### Logisteg
Gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, 8211
Gyrwyr faniau, 8212
Gweithwyr pacio, potelu, llenwi tuniau, llanwyr, 9134
Galwedigaethau storio a thrin nwyddau eraill nec*, 9149
Prynwyr a swyddogion prynu (50%), 3541
Clercod trafnidiaeth a dosbarthu, 4134
Swyddogion diogelwch a galwedigaethau cysylltiedig, 9241

### Gweithwyr peirianneg sifil nec*
Gweithwyr adeiladu ffyrdd, 8142
Gweithwyr adeiladu a chynnal a chadw rheilffyrdd, 8143
Gweithwyr mewn chwareli a gweithwyr cysylltiedig, 8123
Gweithwyr adeiladu nec* (20%), 8149
Llafurwyr mewn crefftau adeiladu eraill nec*, 9129

### Gweithwyr nad ydynt yn weithwyr adeiladu
Gweithwyr proses creu a thrin metel, 8117
Gweithwyr proses nec*, 8119
Gweithwyr peiriannau gwaith metel, 8125
Gweithwyr mewn gweithfeydd dŵr a charthion, 8126
Cyfosodwyr (cerbydau a nwyddau metel), 8132
Archwilwyr a swyddogion rheolaidd, 8133
Cyfosodwyr a gweithwyr rheolaidd nec*, 8139
Dadlwythwyr, docwyr a thaflwyr, 9141
Galwedigaethau crefft llaw nec*, 5499
Galwedigaethau diogelwch elfennol nec*, 9249
Glanhawyr, gwaith domestig, 9233
Ysgubwyr ffordd, 9232
Garddwyr a thirmyn, 5113
Gofalwyr, 6232

### Peirianwyr sifil
Peirianwyr sifil, 2121

### Staff technegol a gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill
Peirianwyr mecanyddol, 2122
Peirianwyr trydanol, 2123
Peirianwyr cemegol, 2125
Peirianwyr dylunio a datblygu, 2126
Peirianwyr cynhyrchu a phroses, 2127
Peirianwyr cynllunio a rheoli ansawdd, 2128
Gweithwyr peirianneg proffesiynol nec*, 2129
Technegwyr trydanol/electronig, 3112
Technegwyr peirianneg, 3113
Technegwyr adeiladu a pheirianneg sifil, 3114
Technegwyr gwyddoniaeth a pheirianneg nec*, 3119
Technolegwyr pensaernïol a thechnegwyr cynllunio tref, 3121
Drafftsmyn, 3122
Technegwyr sicrhau ansawdd, 3115
Cynllunwyr tref, 2432
Peirianwyr electronig, 2124
Archwilwyr adeiladau, 3123
Ymchwilwyr gwyddonol, 2321

### Penseiri
Penseiri, 2431

### Syrfewyr
Syrfewyr meintiau, 2433
Syrfewyr siartredig (nid syrfewyr Meintiau), 2434

* heb ei ddosbarthu mewn man arall



# 6 Gwefan a manylion cyswllt CSN

## Gwefan CSN – www.cskills.org/csn

Mae gwefan CSN yn cyflawni rôl porth cyhoeddus i bobl sydd am weld yr amrywiaeth o adroddiadau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LFI) a'r deunydd ymchwil a gynhyrchir yn rheolaidd gan CSN.

Gellir lawrlwytho'r prif adroddiad ar gyfer y DU, ynghyd â'r deuddeg adroddiad LMI (un ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a'r naw rhanbarth yn Lloegr) o'r wefan, ac mae adroddiadau ymchwil eraill gan CITB-SgiliauAdeiladu hefyd ar gael am ddim ar ein gwefan.

Gall y diwydiant, llywodraeth, asiantaethau rhanbarthol a rhanddeiliaid allweddol ddefnyddio'r wybodaeth hon am y farchnad lafur a dirnadaeth am dueddiadau i wneud y canlynol:

- nodi'r sgiliau cysylltiedig a phenodol y bydd eu hangen fesul blwyddyn
- nodi'r sectorau sy'n debygol o fod y prif ysgogwyr o ran twf mewn allbwn ym mhob rhanbarth a chenedl ddatganoledig
- olrhain yr economi macro
- deall sut y mae digwyddiadau economaidd yn effeithio ar berfformiad economaidd y gwledydd datganoledig a pherfformiad economaidd rhanbarthol
- amlygu tueddiadau ar draws y diwydiant megis newidiadau cenedlaethol a rhanbarthol yn y galw
- cynllunio at y dyfodol a rhoi sylw i anghenion sgiliau gweithlu sydd wedi bod yn weithlu symudol yn draddodiadol
- deall faint o newydd-ddyfodiaid cymwys sydd eu hangen ar y gweithlu.

Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth bellach am:

- sut mae CSN yn gweithio
- dull Modelau CSN
- sut y gellir defnyddio'r Model i ystyried senarios
- sut i gysylltu â thîm CSN
- ymchwil gysylltiedig CITB-SgiliauAdeiladu
- sut i ymaelodi â'r rhwydwaith.

Ceir gwefan CSN yn: **www.cskills.org/csn**

## Rhan aelodau CSN

Tra bod rhan gyhoeddus Gwefan CSN yn cynnig porth i'r adroddiadau LMI a'r adroddiadau ymchwil a gwblhawyd, mae bod yn aelod o CSN yn cynnig manteision pellach.

Fel aelod o CSN, byddwch wedi'ch cysylltu ag un o'r grwpiau Arsylwi, sy'n chwarae rôl hollbwysig o ran rhoi sylwadau, gwybodaeth a dirnadaeth am yr hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad ym mhob rhanbarth a chenedl yn y DU. Defnyddir yr adborth hwn i fireinio'r tybiaethau a'r data sy'n cael eu cynnwys yn y rhaglen rhagamcanu, megis:

- manylion prosiectau penodol
- y galw o fewn mathau amrywiol o waith neu sectorau
- y cyflenwad llafur
- mewnlif ac all-lif ar draws y rhanbarthau a'r gwledydd datganoledig

Felly, gall aelodau CSN:

- gael gafael ar ragamcanion yn gynnar
- cael y cyfle i ddylanwadu ar y data a chyfrannu ato
- gofyn am senarios a allai ymdrin â chwestiynau tebyg i "Beth fyddai'n digwydd pe...' gan ddefnyddio'r model.

Trwy ran yr Aelodau o wefan CSN, mae gall aelodau:

- weld deunydd yn gysylltiedig â grwpiau arsylwi megis dyddiadau cyfarfodydd, agendâu, cyflwyniadau a nodiadau
- lawrlwytho deunydd ymchwil ychwanegol
- gwneud sylwadau/rhoi adborth i dîm CSN.

Wrth i'r grwpiau Arsylwi nodi'r materion gwirioneddol sy'n wynebu'r diwydiant yn y DU, gallwn fynd ati i gynllunio ein hymateb i anghenion sgiliau mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Os hoffech gyfrannu'ch sylwadau, eich gwybodaeth a'ch dirnadaeth am y diwydiant i'r broses hon, a bod yn aelod o CSN, hoffem glywed gennych.

## Manylion cyswllt

Am wybodaeth bellach am wefan CSN, os oes gennych ymholiadau am waith CSN, neu os hoffech gofrestru'ch diddordeb mewn bod yn aelod o CSN, cysylltwch â ni yn: **csn@cskills.org**

# Nodiadau



Am ragor o wybodaeth am
Rwydwaith Sgiliau Adeiladu, cysylltwch â:

**Adam Evans**
Ymchwil a Datblygu
Dadansoddwr Ymchwil
0344 994 4400
adam.evans@cskills.org

www.cskills.org



CITB-ConstructionSkills, CIC and CITB Northern Ireland are working as ConstructionSkills, the Sector Skills Council for Construction. (CITB-ConstructionSkills Registered Charity Number 264289)